# Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## HWLG(3)-23-08 papur 1

### Craffu ar y Gyllideb Ddrafft – Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

### 1. Pwrpas

1.1 Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndir i oleuo trafodaeth â'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar 15 Hydref 2008.

### 2.Blaenoriaethau

### 2.1Gwella Gwasanaethau Lleol

2.1.1Yn Cymru'n Un fe ddywedwyd: "Yn dilyn argymhellion Adroddiad Beecham…….byddwn yn creu strategaeth ar gyfer gwella yn barhaus wasanaethau lleol…, gyda'r nod o sefydlu'r effeithlonrwydd a'r gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sy'n angenrheidiol". Yr hyn rwyf yn canolbwyntio'n bennaf arno yma yw:

Sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chytundebau Cyflenwi Lleol ar gyfer pob rhan o Gymru;

ystyried safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau allweddol;

gwella'r modd y cyflwynir gwybodaeth gyhoeddus;

rhesymoli a chael gwared â gorgyffwrdd neu gymhellion gwrthnysig yn fframweithiau perfformiad gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn helpu cydweithrediad;

ymgynghori ar bolisi at y dyfodol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu.

2.1.2Isod fe ystyrir y materion hyn ymhellach a rhoddir sylw i faterion eraill y mae'r Pwyllgor wedi ymddiddori ynddynt o'r blaen.

### Byrddau Gwasanaethau Lleol

2.1.3Yr hyn rwyf yn ei ddisgwyl gan y byrddau gwasanaethau lleol yw y byddant yn galluogi'r cyrff sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio'n llawer mwy effeithiol, cyfannu'r modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer y dinesydd. Rwyf am iddynt fod yn dimau arweiniol arloesol gan ganolbwyntio ar y dinesydd a chan ymdrin â phroblemau na ellir mo'u datrys ond drwy gyfrwng cydweithrediad ar draws sectorau. Model newydd yw hwn. Nid cyrff statudol mo'r byrddau. Mae pob tîm yn cynnwys un o uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn cydweithio â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i roi sylw i faterion system gyfan a gweithredu fel rheolwr cyfrif neu berthynas ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Lleol ar ffurf prosiectau peilot neu ddatblygu yn haf 2007 yn ardaloedd chwe awdurdod lleol (Caerffili, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Caerfyrddin, Wrecsam a Gwynedd). Bwriad hyn oedd profi sut orau i sicrhau y gellir adlewyrchu amgylchiadau lleol oddi mewn i fframwaith cenedlaethol cydlynol. Adlewyrchwyd y profiad hwn mewn canllawiau newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol cysgodol neu lawn wedi'i sefydlu yn ardal pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

2.1.4Mae'r byrddau yn canolbwyntio ar brosiectau ac yn dewis eu meysydd. Maent yn canolbwyntio ar y materion hynny lle gallant wneud gwahaniaeth: sef trwy ddatrys problemau, dod dros ben rhwystrau ac adeiladu gwir ymdeimlad o rannu'r un uchelgais a chyfeiriad. Mae eu gwaith yn gysylltiedig â'r genhedlaeth nesaf o strategaethau cymunedol. Rhaid i'r byrddau fod yn ganolbwynt i'r holl drefn o weithio mewn partneriaeth.

2.1.5Mae'r chwe ardal wreiddiol bellach yn gweithio i gyflawni'r prosiectau y gwnaethant ymrwymo iddynt yn eu cytundebau cyflenwi lleol peilot ar gyfer 2008-09 ac ehangu'r cytundebau hyn i gynnwys ystod ehangach o ganlyniadau. Disgwylir y bydd y 16 Bwrdd arall yn paratoi Cytundeb Cyflenwi Lleol er mwyn manylu ar y prosiectau, y cerrig milltir a'r canlyniadau ar gyfer 2009-10 yn y lle cyntaf. Mae'n rhy fuan i ddweud pa lwyddiant a gânt o ran sicrhau newid, ond mae'r blaenoriaethau y maent yn debygol o weithio arnynt yn adlewyrchu rhai o'r materion mwyaf dyrys a heriol yr ydym yn eu hwynebu a'r rhain yn faterion lle mae'n rhaid wrth gydweithio.

2.1.6Yn ychwanegol at hyn, hoffwn weld ymagwedd fwy grymus at rannu adnoddau a chyllidebau. I gefnogi hyn rydym wedi rhoi canllawiau newydd i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gan wneud trefniadau i'w cefnogi tra byddant yn ymgodymu â rhai o'r cymhlethdodau. Rwyf hefyd yn datblygu trefniadau ar gyfer mwy o integreiddio rhwng gweithio'n lleol ar sail partneriaeth, a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cyd-drefnu, a'r Cynllun Gofodol.

### Safonau Cenedlaethol

2.1.7Mae llawer o gyfleoedd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r safonau presennol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Gyda golwg ar hynny rwyf wedi comisiynu ymchwil i benderfynu sut orau y gellir gwneud hyn, ym maes addysg ysgolion cynradd i ddechrau. Mae canlyniadau'r ymchwil honno yn cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Os bydd hyn yn llwyddiannus, yna byddaf yn ystyried gyda'm cyd-Weinidogion a ddylem gynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr un math o waith.

### Gwella'r modd y Cyflwynir Gwybodaeth

2.1.8Er mwyn helpu i sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd, rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar fesurau i sicrhau y darperir gwybodaeth a fydd yn haws i'w chael am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus, gan roi adroddiad ar hyn. Cychwynnwyd trwy lansio gwefan gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhai o'r gwefannau allweddol sy'n rhoi gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gael mewn un man gyda'i gilydd. Mae'r wefan yn cynnwys offer sy'n galluogi defnyddwyr i greu eu proffiliau a'u mapiau lleol eu hunain.

### Cysoni Fframweithiau Perfformiad

2.1.9Rwyf hefyd wedi gofyn i swyddogion ystyried fframweithiau perfformiad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o ran gweithio mewn partneriaeth. Mae'r rhan hon o'r gwaith yn ymwneud â gwasanaethau cyfan a gyflenwir ar draws sectorau. Gan hynny fe drafodir mynd i'r afael â'r mannau lle y gall gwahanol gyfundrefnau wrthdaro, gorgyffwrdd neu mewn rhyw ffordd arall lesteirio gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith ar gytundebau cyflenwi lleol a newidiadau i fframwaith perfformiad Llywodraeth Leol.

### Arolygu a Rheoleiddio

2.1.10Rwyf wedi rhoi diweddariad ysgrifenedig ar wahân i'r Pwyllgor ar weithredu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mehefin 2005) i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2005 ar y Gyfundrefn Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus. Trefnwyd i drafod hwn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn Ebrill 2008 ond cafodd y cyfarfod ei ganslo ac nid oes trefniadau wedi'u gwneud eto i drafod yr eitem ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio.

2.1.11Byddaf yn cyflwyno datganiad polisi drafft ar arolygu, archwilio a rheoleiddio i'r Cabinet ar 13 Hydref. Os yw'r Cabinet yn cytuno rwy'n bwriadu cyflwyno'r papur hwnnw at ddibenion ymgynghori cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Datganiad yn gosod allan fwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yn rhoi cyfeiriad mwy systematig i gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio o safbwynt cyd-drefnu eu gweithgareddau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru

2.1.12Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu sicrwydd i'r cyhoedd a hyrwyddo gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae ganddynt ran arbennig o bwysig yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, o safbwynt eu gwaith unigol hwy a hefyd am eu bod yn cydgordio cyfraniad arolygiaethau eraill. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cyflwyno Mesur Llywodraeth Leol yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mae rhan o'r mesur yn cynnwys cynigion i egluro a chryfhau rôl rheolwyr perthnasoedd a phrosesau'r cyd-asesiad risg. Yn fwy cyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o'r Fforwm Penaethiaid Arolygiaethau sy'n cael ei gadeirio gan un o uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, ac yn hyn o beth mae'n cydweithio â chyrff arolygu eraill i wneud yn fawr o gyfleoedd i wella cydweithio drwyddi draw.

## 2.2 Y Cynllun Gofodol

2.2.1Yng Ngorffennaf 2008, mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru 2008. Ei fwriad yw rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r rhai sy'n gwireddu amcanion allweddol a chydrannau ein rhaglen "Cymru'n Un "ac mae'n adlewyrchu'r gwaith mawr sydd wedi bod yn digwydd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Dilynodd hyn ymgynghoriad mawr a ddangosodd fod dull y Cynllun Gofodol yn rym mawr i wella cydweithio i gael canlyniadau gwell yn Ardaloedd Cymru.

2.2.2 Mae Gweinidogion yn arwain ar y Cynllun Gofodol ym mhob ardal, sef:

Y Gogledd-orllewin - Elin Jones

Y Gogledd-ddwyrain - Brian Gibbons

Y Canolbarth – Alun Ffred Jones

Bae Abertawe - Jane Davidson

Y De-ddwyrain a Sir Benfro - Andrew Davies

2.2.3Yn ystod cam nesaf Cynllun Gofodol Cymru, bwriadaf sicrhau cysylltiadau da rhwng gwaith grwpiau'r cynllun gofodol a'r byrddau gwasanaethau lleol. Mae digon o gyfle i Weinidogion y Cynllun Gofodol ymgysylltu â'r byrddau gwasanaethau lleol perthnasol er mwyn cynnal cysylltiadau effeithiol rhwng yr agendâu lleol a rhanbarthol.

2.2.4Rydym yn defnyddio'r Cynllun Gofodol i helpu i gyfannu gwaith ar draws Adrannau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gysylltu hyn â'r presenoldeb sydd gennym eisoes yn y rhanbarthau. Mae'n rhoi goleuni ar gyfer datblygu polisïau trwy gynnig gwell ymwybyddiaeth ofodol o'r materion sy'n effeithio ar wahanol rannau o Gymru. Un enghraifft o hyn fydd datblygu fframwaith strategol ar gyfer iechyd y cyhoedd sydd â ffocws gofodol.

2.2.5Rydym hefyd yn sefydlu'r Cynllun Gofodol yn yr Erfyn Porth i Bolisïau sydd wedi'i ddiwygio. Rydym yn sicrhau yr ystyrir y safbwynt gofodol mewn polisïau a strategaethau newydd, yn gynnar a hefyd ar ddiwedd y Porth.

2.2.6 Byddaf yn cymryd i ystyriaeth flaenoriaethau gofodol y cytunwyd arnynt pan eir ati i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol oherwydd byddant yn gymorth i oleuo penderfyniadau ar ddyraniadau cyllidol.

## 2.3Llywodraethu

2.3.1Yn sail i'r rhaglen i wella gwasanaethau cyhoeddus, fel y nodais yn fy mhapur blaenorol, rydym yn datblygu trefn llywodraethu sy'n torri tir newydd ac sy'n hyrwyddo canolbwyntio ar wasanaethau a chanlyniadau dinesydd-ganolog, gan weithio mewn dulliau cydgysylltiedig ac arloesol a rhoi gwerth am arian. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol sy'n torri ar draws ffiniau traddodiadol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno set o egwyddorion llywodraethu dinesydd-ganolog i Gymru gyda'r nod o ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus nodweddiadol Gymreig a gwireddu'r egwyddorion craidd a'r ymddygiad y dylai'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau eu rhoi yng nghanol eu sefydliadau. Yr egwyddorion hyn yw:

## Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf

– rhoi'r dinesydd yn y canol gyda phopeth a wnawn a chanolbwyntio ar ei anghenion a'i brofiadau; sicrhau mai darparu gwasanaeth o ansawdd uchel fydd diben y sefydliad.

**Gwybod Pwy sy'n Gwneud Beth a Pham** – gan sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r gadwyn o ddarparwyr yn deall swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb arall a sut y gallant gyda'i gilydd gyflawni'r canlyniadau gorau posibl;

**Ymgysylltu ag Eraill** – gan weithio mewn partneriaethau adeiladol i roi'r canlyniad gorau i'r dinesydd;

**Byw Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus** – gan fod yn gorff sy'n seiliedig ar werthoedd, â'i wreiddiau yn egwyddorion Nolan a safonau uchel o fywyd ac ymddygiad cyhoeddus, gan gynnwys bod yn agored, safonau gwasanaeth cwsmer, amrywiaeth ac arweinwyr sy'n gweithio'n agos;

**Meithrin Dulliau Cyflenwi Arloesol** – gan fod yn greadigol ac arloesol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio ar sail tystiolaeth a chymryd risg dan reolaeth i gyflawni canlyniadau gwell;

**Bod yn Sefydliad sy'n Dysgu** – gan ddysgu o hyd a gwella bob amser y modd y cyflenwir gwasanaethau; a

**Chael Gwerth am Arian** – gan ofalu am adnoddau'r trethdalwyr yn briodol a'u defnyddio'n ofalus i gyflenwi gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel.

2.3.2I helpu i sefydlu'r egwyddorion mae Rhaglen Llywodraethu yng Nghymru yn rhoi ar waith fesul cam raglen o asesiadau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar Ardaloedd y Cynllun Gofodol. Cynhyrchir y rhaglen ar y cyd â SOLACE ac mae cynllun peilot ar hyn o bryd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Rhaglen Llywodraethu yng Nghymru yno i gefnogi cyrff gwasanaeth cyhoeddus a phartneriaethau ar draws pob sector trwy eu helpu i unioni eu trefn llywodraethu â'r rhaglen wella, gan hwyluso trosglwyddo arferion da, hyrwyddo arloesi a goresgyn rhwystrau. Rhan bwysig o'r rhaglen yw gwrando ar beth sy'n gweithio'n dda yn ymarferol a beth yw'r rhwystrau a'r materion y mae angen eu datrys. Dull sy'n datblygu yw hwn ac sy'n ceisio cynorthwyo. Nid archwiliad nac arolygiad mo'r rhain.

2.3.3Fel rhan o rannau cyntaf asesiadau Llywodraethu yng Ngogledd Cymru, treuliais dridiau yn ddiweddar ar raglen o ymweliadau arddangos i'r dinesydd a drefnwyd gan awdurdodau lleol Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Cyfarfûm â chroestoriad eang o ddinasyddion a oedd â rhan mewn llunio'r gwasanaethau a dderbyniant. Roedd y cyfarfodydd hyn yn rhoi llawer o wybodaeth, yn goleuo ac ar brydiau yn ysbrydoli. Fe wnaeth yr hyn a ddysgais yn yr ymweliadau hyn fy helpu i lunio fy marn fy hun a bydd yn bwydo i'r asesiadau Llywodraethu yn y meysydd hyn. Bwriadaf drefnu rhagor o ymweliadau arddangos ledled Cymru yn y dyfodol.

## 2.4Cyflwyno Newid Sylweddol o ran Dysgu ac Arloesi er mwyn Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus

2.4.1Rydym yn awr yn sefydlu Academi Arwain ac Arloesi wedi'i hadfywio i ymchwilio i feithrin arloesi yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan adeiladu ar ein harferion gorau yn ogystal â ffynonellau yn y DU ac yn rhyngwladol.

2.4.2Ym mis Mehefin y llynedd gofynnais i Reoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru ail-lunio'i ffordd o weithio fel menter ym maes gwasanaeth a dod i fod yn Academi Arweinyddiaeth. Bu croeso mawr i'r nod, sef darparu posibiliadau a chyfleoedd newydd ar gyfer datblygu drwyddi draw, a chafwyd llawer o drafodaeth ar y fframwaith amlinellol a baratowyd ddiwedd y flwyddyn diwethaf. Cafwyd cefnogaeth, mewn egwyddor ac yn ymarferol, gan randdeiliaid allweddol o blith yr holl wasanaethau cyhoeddus. Diwedd hyn oedd cynnig diwygiedig i sefydlu Academi Arweinyddiaeth Cymru, a anfonwyd at bob Prif Weithredwr yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru. Tua'r un adeg, comisiynais ymchwiliad i'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Arloesi Cyhoeddus.

2.4.3Profodd yr ymarfer ar yr Academi yn werthfawr o ran cydweithio a chyd-gynhyrchu, gan ganolbwyntio ar un o'r ffactorau pwysicaf yn nhermau gwella gwasanaethau cyhoeddus, sef rheolaeth ac arweinyddiaeth dda, i gynhyrchu cyfres o raglenni gyda chefnogaeth dda, sy'n gwella'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o Gyfleoedd Dysgu Rhyngwladol, sydd â phroffil uchel a gwerth uchel, Tystysgrif i Raddedigion mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Cydweithio a'r Ysgol Haf ar Wasanaethau Cyhoeddus sy'n uchel ei bri ledled y DU.

2.4.4Yn y cyfamser, rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i ddweud bod y gwaith cynnar ar Ganolfan Arloesi yn cael ei integreiddio â'r Academi Arweinyddiaeth. Mae hyn wedi cyfoethogi'r cynigion, gan sicrhau bod fy nghynigion yn cydweddu â'r arferion mwyaf blaengar yn y byd. Bydd yr Academi newydd yn cyfuno datblygu arweinwyr â rhoi cyngor ymarferol, arbenigol a magu datblygiadau newydd, addawol

mewn cyflwyno gwasanaethau. Bydd yr Academi yn magu datblygiadau newydd yn arbennig sy'n ceisio integreiddio gwasanaethau o amgylch anghenion y dinesydd – gan fanteisio ar arbenigedd y rheng flaen a'r defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal ag arbenigwyr eraill.

2.4.5Bydd yr Academi yn darparu - ac mae Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru eisoes yn darparu - ein gwasanaethau cyhoeddus gyda threfn bendant i fanteisio ar ddatblygiadau newydd ym maes cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ledled y byd. Mae tîm yr Academi yn creu partneriaethau strategol allweddol heddiw a fydd yn cryfhau hyn. Ymhlith y partneriaethau hyn, er enghraifft, y mae Brigâd Kafka, Sefydliad Young a NESTA. Rwy'n hyderus ein bod ninnau yng Nghymru yn cynnig modelau newydd y gall gwledydd eraill ddysgu ohonynt. Trwy hyn, gallwn ddod yn rhan o fudiad rhyngwladol, gan osgoi ailddyfeisio pethau sydd eisoes yn bodoli a chan fabwysiadu ac addasu arferion llwyddiannus sydd wedi ennill eu plwy. Bydd yn hwyluso sicrhau brwdfrydedd y gweithlu, a wobrwyir trwy'r gwerth cyhoeddus a greant; bydd hyn yn gwneud llawer i gynnal a gwella lefelau cymhelliant - i bawb. Rwyf am weld llai o siarad a llawer mwy o wella ac arloesi sy'n dod â'r dinesydd i ganol y llwyfan.

### 2.5Cyllideb Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.5.1Mae'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn ceisio hyrwyddo cydweithredu, yn sail i wella'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn unol â gofynion "Cymru'n Un" a "Cyflawni Ar Draws Ffiniau". Mae'r Adran hefyd yn cefnogi'r Arolygiaethau ar gyfer Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gofal Iechyd ac Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae gan Brif Grwp Gwariant yr Adran bedwar Maes Rhaglenni Gwariant.

**Arolygiaethau –** mae hwn yn cefnogi costau gweinyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

**Estyn -** Maes Rhaglenni Gwariant refeniw a chyfalaf sy'n rhoi cefnogaeth i Estyn, Swyddfa Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

**Creu'r Cysylltiadau –** mae hwn yn cyllido amrywiol fentrau i arwain a chefnogi'r agenda ar gyfer newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, trwy gronfeydd Gwella a Datblygu Creu'r Cysylltiadau. Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hefyd yn cyllido Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru, sy'n rhoi cyfleoedd sy'n ceisio datblygu pobl, cyrff a systemau o fewn y gwasanaeth cyhoeddus, a Gwerth Cymru, sy'n darparu arweiniad, cyfeiriad strategol, hyfforddiant a chanllawiau i helpu cyrff i wneud gwelliannau cynaliadwy ym maes caffael.

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru -** mae hwn yn cyllido rhaglenni penodol o waith sy'n cefnogi AGGCC, gan gynnwys arferion gwell wrth reoli perfformiad trwy Gronfa Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, hyfforddi a datblygu'r gweithlu trwy'r Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad a gweithgareddau cyd arolygu ac adolygu.

### Dyraniad Prif Grwp Gwariant yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad fesul Maes Rhaglenni Gwariant a Llinell Wariant yn y Gyllideb (LlWG) ar gyfer 2008-2011 (£'000)

| **LlWG** | **Enw'r Gwariant yn y Gyllideb** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
|---|---|---|---|---|
| 6775 | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14.638 | 15.077 | 15.461 |
| 6785 | Arolygiaeth Gofal Iechyd | 2.491 | 2.570 | 2.638 |
| | **Prif Grwp Gwariant yr Arolygiaethau** | **17.129** | **17.647** | **18.099** |
| | | | | |
| 6260 | Rhaglenni Gwariant Estyn | 4.796 | 5.089 | 5.076 |
| 6280 | Cost Cyfalaf a Dibrisiant Estyn | 0.378 | 0.376 | 0.375 |
| 6340 | Cyflogau ac Yswiriant Gwladol Estyn | 6.928 | 6.992 | 6.974 |
| 6360 | Gweinyddiaeth gyffredinol Estyn | 2.066 | 2.135 | 2.130 |
| | **Prif Grwp Gwariant Estyn** | **14.168** | **14.592** | **14.555** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 7087 | Cronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau | 2.753 | 0.338 | 0.231 |
| 7089 | Cronfa Datblygu Creu'r Cysylltiadau | 4.301 | 4.117 | 4.251 |
| 7091 | Gwerth Cymru | 0.492 | 0.490 | 0.488 |
| 7093 | Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru | 1.150 | 1.211 | 1.208 |
| 2310 | Cynllun Gofodol Cymru | 0.483 | 0.480 | 0.479 |
| 7096 | Cyfnewidcymru | 3.600 | 3.700 | 3.400 |
| Newydd | Llywodraethu yng Nghymru | 0 | 0.650 | 0.650 |
| | **Prif Grwp Gwariant Creu'r Cysylltiadau** | **12.779** | **10.986** | **10.977** |
| | | | | |
| 0640 | Rhoi ar Waith y Papur Gwyn ar y Gwasanaethau Cymdeithasol | 5.267 | 6.132 | 6.117 |
| 0780 | Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ansawdd | 0.676 | 0.672 | 0.670 |
| 0800 | Rhaglen Cymorth Hyfforddiant | 9.032 | 8.986 | 8.963 |
| | **AGGCC** | **14.975** | **15.790** | **15.750** |
| | | | | |
| | **Cyfanswm Refeniw** | **59.051** | **59.015** | **59.381** |
| | | | | |
| 6300 | Gwariant Cyfalaf Estyn | 0.445 | 0.445 | 0.445 |
| | **Cyfanswm Cyfalaf** | **0.445** | **0.445** | **0.445** |
| | | | | |
| | **Cyfanswm Prif Grwp Gwariant** | **59.496** | **59.460** | **59.826** |

**Dyraniadau LlWG ar gyfer Maes Rhaglenni Gwariant Creu'r Cysylltiadau SPA (£'000)**

| **LlWG** | **Enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
|---|---|---|---|---|
| **7087** | Cronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau | 2.753 | 0.338 | 0.231 |
| **7089** | Cronfa Datblygu Creu'r Cysylltiadau | 4.301 | 4.117 | 4.251 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7091** | Gwerth Cymru | 0.492 | 0.490 | 0.488 |
| **7093** | Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru | 1.150 | 1.211 | 1.208 |
| **2310** | Cynllun Gofodol Cymru | 0.483 | 0.480 | 0.479 |
| **7096** | Cyfnewidcymru | 3.600 | 3.700 | 3.400 |
| **Newydd** | Llywodraethu yng Nghymru | 0 | 0.650 | 0.650 |
| | **Cyfanswm** | **12.779** | **10.986** | **10.977** |

2.5.2Yn y flwyddyn gyfredol mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Creu'r Cysylltiadau yn cyllido:

Llywodraethu yng Nghymru£0.747m

Arloesi £0.153m

Datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol£1.400m

Dinasyddion yn Gyntaf Cymru£1.000m

Cyfraniad at Ffynnon£0.150m

Datblygu craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd£0.020m

Cyfranogiad Cymru£0.300m

Perfformiad Cymru£0.300m

2.5.3Y cyfanswm a ddyrannwyd yw £4.1m. Yn y dyfodol, mae £1.4m yn cael ei neilltuo bob blwyddyn ar gyfer datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol, £1m ar gyfer arian cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac £1m ar gyfer gwaith Dinasyddion yn Gyntaf Cymru ar weddnewid mynediad/ymgysylltu â'r dinesydd. Mae'r £1.7-1.8m sy'n weddill ym mhob blwyddyn yn dal heb ei ddyrannu.

### 2.6Gyrru'r Agenda Effeithlonrwydd drwy gyfrwng Mwy o Gydweithredu ar draws y Sector Cyhoeddus

2.6.1Agenda eang yw'r agenda ar gyfer ennill trwy effeithlonrwydd. Y bwriad yw annog diwylliant ac ymddygiad lle rhoddir blaenoriaeth bendant i ddewis gwerth am arian, gan roi ystyriaeth deilwng i'r ffyrdd y mae'r defnydd o adnoddau mewn sefydliadau unigol yn effeithio ar sefydliadau eraill ac ar y budd ehangach a gaiff dinasyddion o'r buddsoddiad. Mae'r posibiliadau ar gyfer rhannu gwasanaethau yn parhau i fod yn bwysig. Ar lefel Cymru gyfan, mae gennym eisoes Brosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang, y rhoddais adroddiad arno y tro diwethaf, a Rhaglen Cyfnewidcymru" "sydd am sicrhau bod hyd at £200m o arbedion dros gyfnod o 5 mlynedd ar gael i'w hail-fuddsoddi yn sector cyhoeddus Cymru.

2.6.2Rydym wedi gosod targed clir ac uchelgeisiol sef sicrhau gwerth £600 miliwn o welliannau effeithlonrwydd ar draws cyrff cyhoeddus erbyn 2010. Mae Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi manylion am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt i gael gwerth am arian yn 2006-07 ac wedi cyhoeddi'r rhain. At ei gilydd, mae'r hunanasesiadau hyn yn dangos bod y sefydliadau yn dod ymlaen yn dda wrth iddynt anelu i gyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Bydd cyrff cyhoeddus wedi adrodd unwaith eto ar eu cynnydd erbyn diwedd mis Tachwedd a byddwn yn coladu manylion fel y gellir paratoi a rhoi adroddiad cyfansawdd ar gyfer 2007-08.

2.6.3Ar y lefelau lleol a rhanbarthol, rydym yn dal i gefnogi datblygu gweithgareddau clwstwr a fydd yn cynnwys canolfannau rhagoriaeth ar gyfer swyddogaethau sy'n bodoli ac a all fod wedi'u dyblygu mewn mannau eraill.

2.6.4Er enghraifft, yn y GIG yng Nghymru fe sefydlwyd Partneriaeth Fusnes Gogledd Cymru eisoes i ddarparu gwasanaethau i'r Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd Lleol. Yn awr, edrychir ar y dull hwn gyda'r nod o'i ehangu drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, gyda chynlluniau bellach ar y gweill i rannu gwasanaethau yn Ne-ddwyrain Cymru.

2.6.5 Ar gyfer Llywodraeth Leol, mae byrddau partneriaeth rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gwneud cynnydd wrth roi ar waith drefniadau i gydweithio. Mae cyfleuster i rannu gwasanaethau talu cyflogau, hyfforddi a gwaith Adnoddau Dynol yn cael ei gynllunio yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae wedi cyrraedd cyfnod allweddol; mae achos busnes manwl wedi'i ddatblygu ac mae'n cael ei ystyried gan y 10 awdurdod. Disgwylir penderfyniad terfynol ar y camau nesaf cyn y Nadolig. Gwnaed cam sylweddol ymlaen wrth ddatblygu trefniadau caffael ar y cyd mewn llywodraeth leol, gyda Chonsortiwm Pwrcasu Cymru'n cael ei ehangu a Phartneriaeth Caffael Gogledd Cymru'n cael ei sefydlu. Rhagwelir y bydd y trefniadau hyn yn darparu arbedion effeithlonrwydd o ryw £5.5 miliwn y flwyddyn o 2010 ymlaen. Cefnogwyd pob un o'r mentrau hyn yn ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Cwmpasu**

2.6.6Mae Cronfa Wella Creu'r Cysylltiadau, sy'n para am dair blynedd ac sy'n werth £9 miliwn, yn dal i fod yn allweddol i hyrwyddo cynnydd mewn nifer o feysydd. Mae amryw o astudiaethau dichonolrwydd ar y gweill mewn Llywodraeth Leol, yn y sector gwirfoddol ac yn y gwasanaethau brys. Bellach mae'r astudiaethau hyn bron wedi'u cwblhau. Byddant yn darparu sail ar gyfer rhoi cynlluniau peilot ar waith mewn sectorau yn bennaf ac fe ellir eu hehangu fel sy'n briodol. Mae trydedd gyfran o brosiectau bellach wedi'u cefnogi trwy'r Gronfa.

## 2.7Ffyrdd Newydd o Ymgysylltu â Dinasyddion

2.7.1Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymateb i anghenion **pob** dinesydd sydd wrth wraidd ein ffordd o fynd ati i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ni all gwasanaethau fod yn wir ymatebol i ddinasyddion oni cheir dealltwriaeth o'u hanghenion a'u barn ac o'r her sy'n wynebu rhai dinasyddion er mwyn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

2.7.2Mewn ymchwil a wnaed yn 2005 i farn dinasyddion am wasanaethau cyhoeddus, gwelwyd bod dinasyddion yn aml yn barnu a gawsant wasanaeth da lawn cymaint ar sail ansawdd eu profiad hwy eu hunain o'r gwasanaeth ag ar ganlyniad y gwasanaeth ei hun.

2.7.3Yn 2005 fe benderfynodd Gweinidogion y dylid defnyddio arolwg cenedlaethol "Byw yng Nghymru" i ganfod beth oedd profiad dinasyddion o wasanaethau cyhoeddus, gan seilio'r cwestiynau ar 5 egwyddor graidd gwasanaeth cwsmeriaid, sef: Mynediad, Profiad Personol, Ymatebolrwydd, Dewisiadau Iaith ac Unioni Cam, yn unol â'r hyn a eglurir yn y ddogfen ""Datblygu Gwasanaethau Gwell i Gwsmeriaid: Fframwaith ar gyfer gwella"".

2.7.4Cynhelir arolwg "Byw yng Nghymru" trwy gyfrwng cyfweliadau wyneb yn wyneb â 7,500 o aelwydydd yng Nghymru, gan ofyn cwestiynau am ddeng maes gwasanaeth yn 2006, a saith maes arall yn ychwanegol yn 2007. Dangosodd canfyddiadau'r arolwg hwn nid yn unig ble rydym yn perfformio'n dda a ble mae angen i ni wella, ond hefyd am y tro cyntaf fe wnaethant ein galluogi i gymharu profiadau a lefel boddhad dinasyddion gyda gwahanol wasanaethau cyhoeddus.

2.7.5Mae swyddogion yn awr yn datblygu cynigion ar gyfer dull gwell o gasglu barn dinasyddion am wasanaethau cyhoeddus, a fyddai'n cynnwys sampl mwy a chaniatáu casglu data blynyddol ar lefel awdurdodau lleol. Bydd unrhyw arolwg yn y dyfodol yn ceisio lleihau dyblygu gwaith ac ategu gwaith a wneir eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

2.7.6Mae'r gwaith yn parhau i ganfod sut i wella arferion cyrff sy'n rhoi gwasanaethau cyhoeddus o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Torrwyd tir newydd mewn llawer man yng Nghymru, er enghraifft wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, ond mae llawer mwy i'w wneud eto. Bu swyddogion yn ystyried i ba raddau y mae'r arferion a'r dulliau presennol yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad yn y maes hwn.

## 2.8Ystadegau Gwladol

2.8.1Daeth Awdurdod Ystadegau newydd ar gyfer y DU I fodolaeth ar 1 Ebrill 2008. Syr Michael Scholar yw Cadeirydd y Bwrdd ac mae Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi'u penodi.

2.8.2Amcan yr Awdurdod yw "hyrwyddo a diogelu ansawdd ystadegau swyddogol sydd yn gwasanaethu lles y cyhoedd". Mae ei gylch gwaith yn cynnwys y cyfan o ystadegau swyddogol yr holl DU - ac felly mae'n cynnwys yr holl ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Awdurdod Ystadegau y DU wedi ymgynghori'n ddiweddar ar God Ymarfer newydd lle nodir egwyddorion a safonau allweddol cynhyrchu ystadegau, y bydd yn rhaid cydymffurfio â hwy. Yn erbyn y rhain y bydd yn asesu'n annibynnol ansawdd a chysondeb ystadegau swyddogol. Daeth y broses ymgynghori i ben ar 30 Medi 2008.

2.8.3At hynny mae'r rheolau a'r egwyddorion ynghylch mynediad at ystadegau cyn iddynt gael eu cyhoeddi, yn cael eu tynhau drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys pwy ddylai gael mynediad atynt a pha mor fuan cyn y cyhoeddi y dylent ei gael. Bydd deddfwriaeth ddrafft ar gyfer Cymru yn dod gerbron y Cynulliad ar gyfer penderfyniad cadarnhaol i'w rhoi ar waith cyn 1 Ebrill 2009.

## 2.9 Y Cyfrifiad yng Nghymru

2.9.1Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei chynrychioli ar bob lefel yn nhrefniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer rheoli'r cyfrifiad (gan gynnwys byrddau prosiect a gweithgorau). Rydym yn cydweithio'n glòs â'r Swyddfa Ystadegau er mwyn sicrhau y diwellir anghenion Cymru.

2.9.2Fel rhan o gytundeb gweinyddol, fe ymgynghorwyd â mi yn ddiweddar ar Bapur Gwyn y Cyfrifiad ac rwyf wedi sicrhau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i farn defnyddwyr a rhanddeiliaid, a fynegwyd ym mhwyllgorau'r Cynulliad ac wrth ymgynghori'n gyhoeddus a chynnal sioeau teithiol yng Nghymru. Cyhoeddir Papur Gwyn y Cyfrifiad yn ystod mis Tachwedd 2008 a bydd yn amlinellu cynigion ar gyfer y Cyfrifiad nesaf. Fe ymgynghorir â mi hefyd ar Orchymyn Drafft y Cyfrifiad yn ystod 2009 a byddaf yn gyfrifol am wneud Rheoliadau'r Cyfrifiad ar ddechrau 2010.

## 3. Y Prif Amcanion Polisi ar gyfer Gweddill Llywodraeth y Cynulliad

3.1Fy mlaenoriaethau ar gyfer canfod ffordd ymlaen yw dal ati gyda'r agenda fawr iawn yr wyf wedi'i hamlinellu. At hynny, byddaf yn mynd ati i ymdrin â'r materion isod.

**Arloesi**

3.1.1Er mwyn datblygu polisi a'i roi ar waith yn effeithiol, mae'n rhaid cael trefniadau cyllidebol priodol. Mae potensial i gyd-gyllidebau neu gyllidebau a rennir chwarae rhan bwysig wrth hwyluso mwy o weithio'n drawsbortffolio er mwyn cyflawni amcanion sydd yn mynd ar draws ffiniau sefydliadol neu gyllidebol. Rydym yn awyddus i edrych i mewn i'r posibiliadau ar gyfer gwneud rhagor o ddefnydd o dechnegau o'r fath yn y dyfodol.

3.1.2Mewn unrhyw faes polisi, bydd angen cryn lawer o waith paratoi cyn sefydlu cyd-gyllideb; bydd angen nodi cylch gwaith a gweledigaeth strategol, cytuno ar amcanion a chanlyniadau, a sefydlu trefniadau llywodraethu priodol.

3.1.3Nid oes modd cael un cynllun wnaiff y tro i bawb - ym mhob achos, mae angen mynd i'r afael â manylion y cylch gwaith, yr amseru a'r llywodraethu, boed y cyd-drefniant ar gyfer cyllid, rheoli neu'r ddau. Byddwn yn rhoi cyfarwyddyd am hyn i gyd cyn bo hir. Rwyf hefyd yn ystyried sut orau i brif ffrydio arloesi wrth gyflwyno polisi cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.